

NOSC 2026 RHIF

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r
A483 (Llanymddyfri, Sir
Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40
mya) 202-

Gwnaed 202-
Yn dod i rym 202-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A483, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A483 (Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 202- a daw i rym ar **** 202-.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1990/1656.

NWSI 2026 NO.

ROAD TRAFFIC, WALES

The A40 & A483 Trunk Roads
(Llandovery, Carmarthenshire) (40
mph Speed Limit) Order 202-

Made 202-
Coming into force 202-

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road and the relevant length of the A483 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a) and 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Title and commencement

1. The title of this Order is the A40 & A483 Trunk Roads (Llandovery, Carmarthenshire) (40 mph Speed Limit) Order 202- and it comes into force on **** 202-.

Interpretation

2. In this Order—
“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

- (1) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) S.I. 1990/1656.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, cefnffordd yr A40 Abertawe i Fanceinion a chefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

** **** 202-

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A40 Raglan to Llandovery trunk road, the A40 Swansea to Manchester trunk road and the A483 Swansea to Manchester trunk road.

Restrictions

3. No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk roads described in the Schedule to this Order.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated

** **** 202-

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A40 Rhaglan i Llanymddyfri yn Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin sy'n dechrau wrth bwynt 267 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â Dolau Bran hyd at bwynt 211 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganol ei chyffordd â Pharc Carafannau a Gwersylla Erwlon, sef cyfanswm pellter o 194 o fetrau.

Y darn o gefnffordd yr A40 Abertawe i Fanceinion yn Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin sy'n dechrau wrth bwynt 36 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â Heol Rhos, hyd at bwynt 198 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganol ei chyffordd â Maes y Coleg am gyfanswm pellter o 196 o fetrau.

Y darn o gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion yn Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin sy'n dechrau wrth bwynt 55 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Llys Llanfair hyd at bwynt 168 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â Llys Llanfair am gyfanswm pellter o 113 o fetrau.

SCHEDULE

The length of the A40 Raglan to Llandovery trunk road at Llandovery in Carmarthenshire that commences at a point 267 metres east of the centre of its junction with Dolau Bran to a point 211 metres north-west of the centre of its junction with Erwlon Caravan and Camping Park, a total distance of 194 metres

The length of the A40 Swansea to Manchester trunk road at Llandovery in Carmarthenshire that commences at a point 36 metres north of the centre of its junction with Heol Rhos, to a point 198 metres north-west of the centre of its junction with Maes-Y-Coleg for a total distance of 196 metres

The length of the A483 Swansea to Manchester trunk road at Llandovery in Carmarthenshire that commences at a point point 55 metres north-east of the centre of its junction with Llys Llanfair to a point 168 metres north-east of the centre of its junction with Llys Llanfair for a total distance of 113 metres.